

HEB EI FARCIO'N DDIOGEL

Teitl:	Dehonglwyr	
Maes Arfer / Busnes:	Erlyn a Rheoli Achosion	
Yr Adran sy'n Gyfrifol:	Cyfiawnder a Phartneriaethau	
Cyhoeddwyd Gyntaf:	23/02/98	
Adolygwyd Ddiwethaf:	31/10/19	
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:	Hydref 2021	Mae'r ddogfen hon yn gymwys i gyflogeion:
Rhif Fersiwn:	12	Prif Gwnstabl
AMCAN GWEITHDREFN HEDDLU DE CYMRU:		
<p>Sicrhau bod pob unigolyn sy'n cysylltu â Heddlu De Cymru neu sy'n siarad â staff sy'n gweithio i Heddlu De Cymru yn gallu gwneud hynny heb gael ei roi dan anfantais am y ffaith na allant siarad Saesneg. Mae hyn yn cynnwys unigolion â nam ar y golwg, nam ar y clyw neu nam lleferydd.</p>		
CANLLAWIAU:		
<p>Mae pob agwedd ar y canllawiau hyn a'r weithdrefn hon yn orfodol, felly cyfeiriwch at y Weithdrefn.</p>		
ASESIAD RISG CYFFREDINOL:		
<ul style="list-style-type: none">Dylid glynu wrth yr Aseiad Risg Cyffredinol – Dyletswyddau'r Ddalfa.Dylai'r rhai sy'n gyfrifol am ofyn i weithwyr iaith proffesiynol fod yn bresennol fod yn gyfrifol am sicrhau eu diogelwch.Rhaid asesu'r risgiau a berir i'r gweithiwr iaith proffesiynol, a rhaid i'r gweithiwr hwnnw gael ei friffio ar unrhyw beryglon posibl a geir yn y ddalfa, yn ogystal â'r rheini a berir iddo gan yr unigolyn y bydd yn delio ag ef yn y ddalfa.Dylai swyddogion yr heddlu sicrhau y gall y gweithiwr iaith proffesiynol gadarnhau unrhyw gais i fod yn bresennol mewn man nad yw'n adeilad cyhoeddus – er enghraifft, drwy roi rhif ffôn iddo yng ngorsaf yr heddlu i'w ffonio a chadarnhau ei aseiniad. Dylai swyddogion sy'n gofyn am y gwasanaeth wneud aseiad risg hefyd mewn perthynas â phresenoldeb y gweithiwr iaith proffesiynol. Dylent ystyried, er enghraifft, a ddylid cyfarfod ag ef mewn man addas megis gorsaf heddlu neu orsaf drenau cyn mynd i'r adeilad lle y bydd yr aseiniad yn digwydd yng nghwmni'r heddlu. Byddant hefyd am sicrhau bod y dehonglwr yn cael ei friffio'n briodol am y sefyllfa a bod ei ddiogelwch yn cael ei ystyried wrth iddo gynnal yr aseiniad.		
GWEITHDREFN:		
<p>Mewn cydymffurfiaeth â Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, Codau Ymarfer a chanllawiau Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu ar ddarparu gwasanaethau dehonglwyr, bydd Heddlu De Cymru yn defnyddio gweithwyr iaith proffesiynol i'w helpu i gyfathrebu ag unigolion:</p> <ul style="list-style-type: none">nad ydynt yn deall Saesneg, neu sy'n deall Saesneg ond yn ffafrio defnyddio iaith arall		

HEB EI FARCIO'N DDIOGEL

- sy'n fyddar neu sydd i'w weld yn fyddar
- sydd â nam lleferydd neu sydd fel petai ganddynt nam lleferydd

Mae'r polisi hwn yn gymwys i unigolion:

- a gedwir yn y ddalffa ac sy'n destun ymchwiliad troseddol
- sy'n dystion i droseddau neu ddigwyddiadau eraill sydd o ddiddordeb i'r heddlu
- sy'n ddiodefwr trossedd
- sy'n gofyn am unrhyw wybodaeth arall ac mae dyletswydd ar yr heddlu i roi'r wybodaeth honno

Rhaid i bob dehonglwr a chyfieithydd (h.y. gweithwyr iaith proffesiynol) ddod o Wasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru (WITS). Mae hyn yn cynnwys darparu ar gyfer unigolion byddar/dall.

Unigolion a gedwir yn y ddalffa

Ceir dwy elfen ar gyfer cyfathrebu ag unigolion a gedwir yn y ddalffa:

- Cyfweld i sicrhau tystiolaeth; a
- Rhoi a chael gwybodaeth sylfaenol (er enghraifft am hawliau).

Cyfweliadau i sicrhau tystiolaeth

Er mwyn sicrhau tystiolaeth, mae'n hanfodol bod dehonglwr â chymwysterau addas yn cael ei ddefnyddio.

Crëwyd WITS i sicrhau bod pob dehonglwr yn cael ei fetio'n llawn o ran diogelwch, yn meddu ar y cymwysterau priodol (neu wedi llwyddo ym mhrawf iaith WITS) a'i fod wedi cael hyfforddiant penodol mewn delio ag amgylcheddau'r heddlu.

Gall WITS hefyd weld y Gofrestr Genedlaethol o Ddehonglwyr Gwasanaethau Cyhoeddus a darparwyr iaith eraill.

Dylid rhoi gwybod i WITS bod trefniadau ar gyfer unigolion sydd yn y ddalffa pan fydd yr heddlu yn bwrw ymlaen â'r achos yn drefniadau **'BRY'S'**.

Dim ond os bydd angen i weithiwr iaith proffesiynol fod yn bresennol ar unwaith y dylid cysylltu â WITS rhwng 2300 a 0700.

Dylid gwneud trefniadau ymlaen llaw yn ystod oriau swyddfa WITS a dylid rhoi gwybod eu bod yn drefniadau **'CYFFREDINOL'**.

Mewn amgylchiadau eithriadol pan na fydd WITS yn gallu cynnig dehonglwr, gellir defnyddio dehonglwr sydd ar y Gofrestr Genedlaethol. Bydd y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus yn cadw'r cyfleuster i weld y gofrestr hon.

Er mwyn cynorthwyo â materion brys, gellir penodi dehonglwr o ffynhonnell arall, ond rhaid i hyn gael ei awdurdodi gan swyddog o reng Arolygydd o leiaf.

Gall y canlynol ddylanwadu ar y penderfyniad: -

- a oes angen dehonglwr ar frys
- pa mor ddifrifol yw'r drosedd
- canlyniad/gwarediad tebygol y mater [e.e. ceryddu, rhoi rhybudd syml neu ddim camau pellach].

Dylid nodi efallai na fydd dehonglwr nad yw'n gysylltiedig â WITS wedi cael ei fetio, ei hyfforddi na'i achredu'n briodol. Dylai'r swyddog sy'n awdurdodi defnyddio dehonglwr o'r fath asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â hynny cyn ei awdurdodi.

Rhaid i'r swyddog sy'n awdurdodi defnyddio dehonglwr nad yw'n dod o WITS/nad yw ar y Gofrestr Genedlaethol o Ddehonglwyr Gwasanaethau Cyhoeddus gofnodi'r rheswm/rhesymau dros ei benderfyniad fel sy'n briodol, e.e. Cofnod Cadwraeth, llyfr nodiadau poced neu ar y ffurflen F185b ddiwygiedig.

Rhoi a chael gwybodaeth sylfaenol (er enghraifft am hawliau).

Wrth roi gwybodaeth fwy sylfaenol, neu'n syml er mwyn galluogi cyfathrebu ag unigolyn yn y ddalfa, gellir defnyddio gwasanaeth dehongli dros y ffôn. Mae Heddlu De Cymru'n gysylltiedig â '**Language Line**' sy'n darparu'r gwasanaeth hwn.

Dim ond i hwyluso cyfathrebu o natur nad yw'n dystiolaethol y dylid defnyddio'r gwasanaeth hwn, gan y gallai gweithredwyr Language Line fod yn unrhyw le yn y byd. Felly, mae'n annhebygol y byddant yn gallu rhoi datganiadau tyst neu fod yn bresennol yn y llys.

Achosion o fod yn anaddas i yrru/gyrru ar ôl yfed gormod o alcohol

Er mwyn hwyluso cyfathrebu yn yr achosion hyn, mae canllawiau arfer gorau cenedlaethol yn cynghori y dylid defnyddio gweithiwr iaith proffesiynol i ddarparu gwasanaeth dehongli wyneb yn wyneb. Dylai hyn sicrhau dilysrwydd y broses a, lle bo hynny'n bosibl, dylai'r digwyddiad dehongli gael ei recordio ar deledu cylch cyfyng sy'n gallu clywed popeth. Fodd bynnag, cydnabyddir na all fod yn briodol aros i weithiwr iaith proffesiynol gyrraedd pan fydd y mater yn un brys.

Yn yr achosion hyn, gellir defnyddio 'Language Line', ond dylid nodi'r risgiau a amlinellir uchod.

Mae WITS ar gael hefyd i ddarparu gwasanaeth dehongli dros y ffôn, gan ddefnyddio dehonglwyr lleol ar gyfer y digwyddiadau hyn, felly byddai'n cael ei ystyried yn opsiwn gwell.

Defnyddio gwasanaethau dehonglwr yn y Llys

Y swyddog yn yr achos sy'n gyfrifol am drefnu i ddehonglwr fod yn bresennol yn ystod unrhyw wrandawriad llys a fydd yn digwydd cyn pen dau ddiwrnod gwaith o gyhuddiad (gwrandawiadau remandio yn y ddalfa)

Profi pwyl vdynt

HEB EI FARCIO'N DDIOGEL

Dylid gofyn i **bob** dehonglwr brofi pwy ydyw bob tro y bydd yn bresennol, p'un a yw ar gofrestr WITS ai peidio. Nid yw WITS yn darparu dehonglwyr â bathodynnau adnabod mwyach. Dylai pob dehonglwr sy'n mynychu apwyntiadau ar gyfer yr Heddlu ddod â thaflen amser wedi'i hargraffu gyda nhw. Mae'r daflen hon yn cynnwys logo WITS ynghyd â'r holl wybodaeth ar gyfer yr apwyntiad. Gall dehonglwyr hefyd ddarparu prawf adnabod pellach gyda'u trwydded yrru ac ati. Os bydd gan unrhyw swyddog amheuaeth, gallant ffonio swyddfa WITS unrhyw bryd a byddwn yn hapus i gadarnhau pwy yw'r dehonglwr a chadarnhau a ydyw wedi'i gofrestru â ni.

Nid yw'r canllawiau cenedlaethol yn caniatáu i un dehonglwr drefnu i ddehonglwr arall wneud y gwaith, a dylid rhoi gwybod am unrhyw achosion i Wasanaethau'r Ddalfa ym Mhorthcawl.

Os nad yw'r dehonglwr yn gysylltiedig â WITS nac unrhyw sefydliadau ieithyddol eraill, dylid cadarnhau pwy ydyw bob tro y bydd yn bresennol a rhaid gwirio'r manylion ar Gyfrifiadur Genedlaethol yr Heddlu a system rheoli cofnodion Niche. Rhaid gwneud hyn cyn ei roi mewn sefyllfa lle y bydd yn dod i gysylltiad â'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa/tyst neu'n cael mynediad at unrhyw wybodaeth.

Tystion. Dioddefwyr a chysylltiadau eraill.

O ran dioddefwyr troseddau, dystion i droseddau neu ddigwyddiadau eraill neu unrhyw unigolion sy'n gofyn am wybodaeth gan yr heddlu, bydd dehonglwr yn cael ei ddarparu, lle bo'n briodol, er mwyn helpu i oresgyn anawsterau pan fydd iaith wahanol yn cael ei siarad, neu anawsterau sy'n gysylltiedig â chyfathrebu'n gorfforol.

Er mwyn hwyluso cyfathrebu o'r fath, gellir defnyddio'r gwasanaeth dehongli dros y ffôn.

Gan ddefnyddio'r gwasanaeth hwn, mae'n bosibl cyfathrebu ag unigolyn drwy 'alwad cynadledda'. Wrth benderfynu p'un a ddylid defnyddio dehonglwr, dylid ystyried anghenion yr unigolyn yn ogystal ag anghenion y sefydliad a'r gymuned. Ni ddylai'r penderfyniad fod yn un mympwyol, a dylai fod yn gymesur a chynnwys yr opsiwn lleiaf ymwithiol.

Pan fydd dystion sy'n agored i niwed neu sy'n cael eu bygwth dan sylw, mae'n bwysig ystyried eu hanghenion yn fanwl, a rhaid i swyddogion sy'n cyfweld sicrhau bod dehonglwr addas yn cael ei ddefnyddio yn yr amgylchiadau arbennig hynny. Rhaid i ddehonglwyr a ddefnyddir gan Heddlu De Cymru at ddibenion dehongli wyneb yn wyneb ddod o WITS. Mae WITS yn gweithredu cod safonau proffesiynol a chod cymhwysedd. Mae'r weithdrefn i'w dilyn pan na fydd dehonglwr achrededig ar gael wedi'i hamlinellu uchod.

Mewn sefyllfaoedd pan fydd gwasanaeth dehongli dros y ffôn yn briodol i hwyluso cyfathrebu a dealltwriaeth rhwng staff Heddlu De Cymru ac aelod o'r cyhoedd, bydd Language Line yn cael ei ddefnyddio.

Dylid defnyddio dehonglwyr/cyfieithwyr o WITS **bob tro** pan fydd dioddefwyr trais neu ymosodiad rhywiol difrifol dan sylw. Gall WITS ddarparu dehonglwyr benywaidd ar gais.

Gwrthdaro Buddiannau

HEB EI FARCIO'N DDIOGEL

Rhaid i'r dehonglwr ddatgan unrhyw achos o wrthdaro buddiannau i'r swyddog yn yr achos. Gall y swyddog yn yr achos, lle bo'n briodol, ddefnyddio ei ddisgresiwn i benderfynu a fyddai'r gwrthdaro'n tanseilio didueddrwydd y dehonglwr ac yn peryglu unrhyw dystiolaeth a geir yn ystod unrhyw gyfweiliad ac ati.

Os bydd y swyddog yn yr achos o'r farn nad yw'n angenrheidiol defnyddio dehonglwr arall, a bod pob parti yn cytuno â hynny, gellir bwrw ati gyda'r gwasanaeth.

Mewn achosion o'r fath, rhaid gwneud cofnod llawn o'r amgylchiadau ac unrhyw gamau unioni a gymerwyd.

Mewn achosion penodol, gall fod yn ddoeth ddefnyddio gweithiwr iaith proffesiynol o gymuned/ranbarth arall. Dylid rhoi gwybod i WITS wrth wneud y trefniadau os bydd hyn yn angenrheidiol.

Dehonglwyr Amddiffyn

Mae Adran yr Arglwydd Ganghellor, drwy ymgynghori â Chymdeithas y Cyfreithwyr a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol wedi cyhoeddi'r canllawiau canlynol:

'Where a defence solicitor requires an interpreter to facilitate the provision of advice between solicitor and client, a different interpreter, *where practicable*, should be used. Where this is not practicable the client may, through his or her defence solicitor, consent to the use of a police appointed interpreter'.

Pan fo angen dehonglwr ar gyfreithiwr sy'n gweithredu ar ran unigolyn a gedwir yn y ddalfa mewn achos troseddol, rhaid iddo gael gwybod na fydd yr heddlu yn talu costau/ffioedd o'r fath.

Os bydd y cyfreithiwr yn dymuno defnyddio dehonglwr arall, ei gyfrifoldeb ef fydd wneud y trefniadau angenrheidiol, gyda chymorth yr heddlu os gofynnir amdano. Gellir defnyddio WITS o dan yr amgylchiadau hyn.

Trawsgrifiadau Cyfweiliadau

Nodyn Disgrifiadol Byr

Mewn achosion pan fydd angen cyflwyno nodyn disgrifiadol byr, nid oes rhaid i ddehonglwr/cyfieithydd fod yn rhan o'r gwaith o baratoi ffeil yr achos. Gall y swyddog yn yr achos greu'r nodyn disgrifiadol byr drwy ddefnyddio'r darnau Saesneg o'r cyfweiliad.

Cofnod o Gyfweiliad a Recordiwyd

Mewn achosion pan fydd angen cyflwyno cofnod o gyfweiliad a recordiwyd, nid oes rhaid i ddehonglwr/cyfieithydd fod yn rhan o'r gwaith o drawsgrifio'r cyfweiliad, er efallai y bydd angen datganiad ar y digwyddiad dehongli. Dylid cwblhau datganiadau tra bod y dehonglwr yn dal i fod yng ngorsaf yr heddlu, a thrwy hynny bydd yn ffurfio rhan o'r gwasanaeth dehongli. Mae cofnod o gyfweiliad a recordiwyd yn grynodedeb o'r cyfweiliad, sy'n cynnwys y pwyntiau i'w profi a darnau amlwg. Gall y swyddog yn yr achos greu'r cofnod o gyfweiliad a recordiwyd drwy ddefnyddio'r darnau Saesneg o'r cyfweiliad.

Trawsgrifiad o'r Recordiad Cyfan

Mewn achosion pan fydd angen trawsgrifio'r recordiad cyfan, **efallai** y bydd angen cyfieithiad cyflawn o'r cyfweiliad, ond ni ddylid cymryd hynny'n ganiataol. Dylai cyfarwyddwyr achosion ymgynghori â Gwasanaeth Eryl y Goron cyn trefnu cyfieithiad. Gall Gwasanaeth Eryl y Goron ofyn am drawsgrifiad gan ddehonglwr ar gyfer unrhyw fath o ffeil achos pan fydd yr amgylchiadau'n gofyn am hynny.

Datganiadau a Chyfieithiadau Ysgrifenedig

Mae'r weithdrefn ar gyfer cymryd datganiadau neu gyfieithu dogfennau yn debyg iawn i'r weithdrefn ar gyfer defnyddio dehonglwr mewn amgylchedd 'wyneb yn wyneb', a bydd ei wasanaethau'n cael eu sicrhau drwy ddefnyddio'r gweithdrefnau a amlinellir uchod.

Pan fydd datganiad yn cael ei gymryd gan unigolyn nad yw'n siarad Saesneg, bydd y datganiad gwreiddiol (sy'n cael ei lofnodi gan yr unigolyn sy'n gwneud y datganiad) yn cael ei gofnodi yn ei iaith ei hun a bydd y dehonglwr yn llunio ac yn arddangos copi a gyfieithwyd i'r Saesneg.

Ceisiadau dehonglwyr am daliad.

Mae dehonglwyr WITS yn gwneud cais am daliad drwy gwblhau ffurflen hawlio WITS. Rhaid i'r ffurflen gael ei lofnodi gan swyddog goruchwylio cyn i'r dehonglwr adael er mwyn cadarnhau ei bod yn gywir. Yna, bydd y dehonglwr yn anfon y ffurflen i WITS er mwyn trefnu i'r dehonglwr gael ei dalu.

Dylai unrhyw geisiadau am daliad gan ddehonglwyr nad ydynt yn gysylltiedig â WITS gael eu gwneud drwy gwblhau ffurflen F185b.

Dylid anfon ceisiadau dehonglwyr am daliad i Ganolfan Fusnes yr Heddlu yn y Pencadlys.

Mae Heddlu De Cymru yn talu dehonglwyr ar gyfradd y cytunwyd arni gyda WITS ac yn ôl canllawiau Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu. Ni ddylai staff drafod unrhyw gyfraddau eraill â dehonglwyr.

Archwiliadau ac Arolygiadau

Bydd y defnydd o ddehonglwyr mewn perthynas ag unigolion a gedwir yn y ddalfa yn cael ei fonitro drwy ymchwilio i gofnodion dalfa'r unigolion dan sylw fel rhan o'r broses arolygu cofnodion dalfa arferol.

Bydd y defnydd o ddehonglwyr mewn perthynas â dioddefwyr troseddau, tystion i droseddau neu ddigwyddiadau eraill, ac unigolion sy'n gofyn am wybodaeth gan yr Heddlu yn cael ei fonitro drwy gadw cofnodion mewn perthynas â thaliadau a wneir i ddehonglwyr.

Pryderon ynghylch ansawdd y gwasanaeth dehongli

Er y bydd dehonglwyr a drefnwyd drwy WITS neu wasanaethau dehongli Dros y Ffôn (Language Line) wedi cael eu cymeradwyo o ran eu gallu, mae'n bwysig bod dehonglwyr yn gweithredu'n ddiduedd ac yn darparu gwasanaeth o ansawdd bob tro.

Bydd unrhyw un sy'n ystyried nad yw dehonglwr penodol wedi cyflawni'r safon hon yn rhoi gwybod i Wasanaethau'r Ddalfa ym Mhorthcawl.

ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU UNIGOL

Unigolion a gedwir yn y ddalfa

Swyddog y ddalfa sy'n gyfrifol am bob penderfyniad ynghylch cynnig gwasanaeth dehonglwr i unigolion a gedwir yn y ddalfa mewn gorsaf heddlu, er y gall aelodau eraill o staff wneud y trefniadau mewn gwirionedd. Os bydd unrhyw amheuaeth o ran yr angen i gael dehonglwr, bydd swyddog y ddalfa yn bwylllog ac yn trefnu i un gael ei ddefnyddio.

Dioddefwyr, Tystion ac Unigolion Eraill

Y swyddog yn yr achos sy'n gyfrifol am ddod o hyd i ddehonglwr neu gyfieithydd i hwyluso cyfathrebu rhwng dioddefwyr, tystion ac unrhyw unigolion eraill.

Dylai unrhyw swyddog neu aelod o staff yr Heddlu sy'n amau p'un a ddylid defnyddio gwasanaeth dehonglwr gysylltu â goruchwyliwr neu reolwr llinell am gymorth. Os bydd y goruchwyliwr neu'r rheolwr llinell yn penderfynu na fydd gwasanaeth dehonglwr yn cael ei ddefnyddio, rhaid cofnodi penderfyniad o'r fath ar yr holl bapurau sy'n berthnasol i'r achos ac, yn achos swyddog yr heddlu, yn ei lyfr nodiadau poced.

Y swyddog yn yr achos sydd hefyd yn gyfrifol am drefnu i ddehonglwr fod yn bresennol yn ystod unrhyw wrandawriad a fydd yn digwydd cyn pen dau ddiwrnod gwaith o gyhuddiad (gwrandawiadau remandio yn y ddalfa).

Arolygwyr

Mae angen i Arolygydd awdurdodi unrhyw wasanaethau dehongli nad ydynt yn cael eu darparu gan ddehonglwyr WITS neu rai ar y Gofrestr Genedlaethol o Ddehonglwyr Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae'n rhaid i bob dehonglwr sy'n cofrestru â WITS gwblhau a llofnodi'r Cod Ymddygiad a'i ddilyn bob amser.

Adran Gwasanaethau Cyfiawnder

Yr Adran Gwasanaethau Cyfiawnder fydd yn gyfrifol am adolygu a diweddau'r polisi ynglŷn â dehonglwyr fel y bo'n briodol ac am sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw bryderon ynghylch y gwasanaeth a ddarparwyd a bod y pryderon hynny'n cael eu huwchgyfeirio.

FFURFLENNI:

Cofnod Cadwraeth – Dylid cofnodi pob cam a gymerir o ran yr angen i unigolyn a gedwir yn y ddalfa gael gwasanaeth dehongli ar gofnod cadwraeth yr unigolyn hwnnw.

Samsung PDA – Dylid cofnodi unrhyw benderfyniad i ddefnyddio dehonglwr nad yw'n gysylltiedig â WITS fel cofnod electronig.

HEB EI FARCIO'N DDIOGEL

Dylai pob cais am daliad gan ieithyddion nad ydynt yn gysylltiedig â WITS gael ei wneud ar ffurflen F185b.

DEDDFWRIAETH A RHEOLEIDDIO:

- <https://www.gov.uk/government/publications/pace-code-c-2014>
- <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents>